**Bil yr Amgylchedd (Cymru) – Datganiad o Fwriad y Polisi**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o fwriad y polisi mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth, y cyfarwyddiadau a'r canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu gwneud neu mae Gweinidogion Cymru yn cael eu grymuso i wneud o dan ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd (Cymru) ('y Bil'). Mae wedi'i chyhoeddi er mwyn helpu'r Pwyllgor cyfrifol wrth graffu ar y Bil a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol. Mae manylion gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer pob pŵer is-ddeddfwriaethol wedi'u hamlinellu'n fanwl ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol.

Nod cyffredinol y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig a sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Bil yn cefnogi gwaith ehangach Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau lles hirdymor Cymru fel ei bod yn elwa ar economi ffyniannus, amgylchedd iach a chryf a chymunedau llewyrchus, cydlynus.

| Adran | Disgrifiad | Bwriad y Polisi |
|---|---|---|
| **Rhan 1 – Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** | | |
| 11 (2) | Mae'n rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu ddiwygio disgrifiad o berson a restrir fel corff cyhoeddus o dan adran 11(1). | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 11(1) yn ddarostyngedig i'r gofynion yn Rhan 1. Mae Adran 12 o Ran 1 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo eu bod yn cymryd camau y credant eu bod yn rhesymol ymarferol i wneud datganiad ardal. Mae Adran 13 yn nodi bod rhaid iddynt ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar faterion sy'n cael sylw yn y datganiadau ardal. Mae Adran 14 yn nodi bod ganddynt ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) os bydd CNC yn gofyn iddynt wneud hynny.<br><br>Mae Adran 11 (2) yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, ychwanegu, dileu neu ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 11(1). |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae Adran 11(5) yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â CNC, yr unigolyn/corff a fyddai'n cael ei effeithio gan y pŵer ac unrhyw un arall yr ystyrir ei fod yn briodol cyn defnyddio'r pwerau hyn.<br><br>Diben y pŵer hwn yw sicrhau y gall y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn Rhan 1 gael ei diwygio os bydd unrhyw ad-drefnu sefydliadol mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft, pe bai swyddogaethau corff cyhoeddus yn cael eu trosglwyddo i gorff arall.<br><br><u>Amseru</u><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwriad i newid y rhestr, ond mae'r pŵer yn darparu'r hyblygrwydd i wneud hynny os bydd angen. |
| 22(1) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru atal darpariaeth(au) mewn deddfwriaeth, mewn perthynas â chais gan CNC ar gyfer y ddarpariaeth honno ar unigolyn penodol, at ddiben cyflawni cynllun arbrofol. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu dull hyblyg o fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau deddfwriaethol posibl a all atal ffyrdd newydd o weithio, gan atal y cyfle i ddatblygu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhellach.<br><br>Bydd y pŵer ond yn cael ei ddefnyddio pan fydd CNC wedi cyflwyno cais i Weinidogion Cymru yn gofyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn gan fod CNC wedi nodi rhwystr deddfwriaethol sy'n atal treialu dull newydd trwy gynllun arbrofol. Bydd yn ofynnol i CNC ddarparu manylion yn esbonio pam y byddai atal y ddarpariaeth yn creu rhwystr ac sy'n amlinellu pam mae angen defnyddio'r pŵer i gyflawni cynllun arbrofol.<br><br>Mae'r Bil yn darparu ar gyfer dull integredig sy'n ystyried manteision ecosystemau a chryfder yr ecosystemau hynny. Nid yw deddfwriaeth bresennol yn darparu ar gyfer y dull hwn bob amser. Gall treialu technegau, agweddau, dulliau neu gysyniadau newydd helpu i gyflawni amcanion deddfwriaeth, a gallant hefyd gyd-fynd â'r dull a gynigir yn y Bil. |

| | | |
|---|---|---|
| | | I sicrhau bod y dull cyflawni priodol yn cael ei roi ar waith, mae'r pŵer i gyflawni cynlluniau arbrofol yn golygu bod modd treialu dulliau newydd er mwyn nodi'r dull mwyaf priodol ar gyfer sefyllfaoedd penodol. Mae'r dull hwn hefyd yn caniatáu dealltwriaeth bellach o'r cyfle, y risgiau, unrhyw ganlyniadau anfwriadol a pha gamau sydd angen eu cymryd i gyflawni newid.<br><br>Gall y rhain gynnwys:<br><br>Treialu dulliau i nodi arfer gorau y gellir eu cyflwyno fel rheolau rhwymo cyffredinol. Gall y dull hwn ganiatáu i weithgareddau penodol gael eu hawdurdodi heb yr angen am drwydded (gweler yr astudiaeth achos)<br><br>Treialu potensial dulliau newydd mewn perthynas ag adfer, creu neu ddefnyddio adnodd penodol fel mesur lliniaru a fydd yn helpu i gyfrannu at gydnerthedd ecolegol (e.e. creu coetir neu lystyfiant ar lan nant; adfer mawndir neu wlyptir; system hidlo gwelyau cyrs naturiol);<br><br>Treialu dulliau sy'n addasu neu'n diwygio gweithgareddau (neu grŵp o weithgareddau) trwyddedig sydd eisoes ar waith er mwyn sicrhau gwell canlyniadau mewn ardal benodol (e.e. dalgylch afon).<br><br><u>Astudiaethau Achos</u><br>Mae enghreifftiau o lle y gellir defnyddio'r pŵer yn Atodiad 1. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos sut y gall deddfwriaeth bresennol fod yn atal dulliau newydd rhag cael eu defnyddio er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r astudiaethau achos hyn yn darparu enghreifftiau ar gyfer Deddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Draenio Tir 1991.<br><br><u>Amseru</u><br>Dim ond ar ôl i CNC gyflwyno cais a phan fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon y bydd atal y ddarpariaeth yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | gynaliadwy. Felly, bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio ar ôl i gais gael ei gyflwyno.<br><br><u>Proses</u><br>Mewn cais, rhaid i CNC nodi darpariaeth sydd i'w hatal er mwyn i gynllun arbrofol arfaethedig gael ei gyflawni ac a fydd yn helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br><br>Rhaid i'r ddarpariaeth i'w hatal fod yn gysylltiedig ag un o swyddogaethau CNC. Rhaid iddo fod mewn perthynas â chyflawni cynllun arbrofol ac at ddiben cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br><br>Y bwriad yw y bydd CNC yn:<br><br>Darparu manylion y cynllun arbrofol arfaethedig.<br><br>Nodi'r ddarpariaeth briodol yn y ddeddfwriaeth a pham mae'r ddarpariaeth hon yn atal cynllun arbrofol.<br><br>Darparu gwybodaeth am y partïon sy'n rhan o'r cynllun arbrofol.<br><br>Nodi sut y bydd atal y ddarpariaeth yn helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br><br>Darparu gwybodaeth am sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro.<br><br>O dan y Bil, bydd Gweinidogion Cymru yn:<br><br>Ymgynghori ag unrhyw unigolyn y bydd atal y ddarpariaeth yn effeithio arno.<br><br>Ystyried a yw'r cynnig yn angenrheidiol i ganiatáu cynllun arbrofol ac i gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br><br>Byddai Gweinidogion Cymru hefyd yn asesu'r goblygiadau mewn perthynas â chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yna, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y Gorchymyn arfaethedig i atal y ddeddfwriaeth dros dro trwy'r weithdrefn gadarnhaol.<br><br><u>Elfennau allweddol yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig</u><br>1. Nodi darpariaeth sy'n swyddogaeth y mae CNC yn gyfrifol amdani sydd i'w hatal.<br>2. A yw darpariaeth yn cael ei diwygio neu ei haddasu neu a oes eithriad yn berthnasol i unigolyn penodol.<br>3. Hyd yr atal (heb fod yn fwy na thair blynedd). |
| 22(6) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddirymu rheoliadau a wneir o dan adran 22(1), lle nad oes angen rheoliadau mwyach. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Defnyddir y pŵer hwn i ddileu unrhyw ddarpariaeth i atal deddfwriaeth o dan adran 22(1) fel ei bod yn dychwelyd i'w drafft gwreiddiol.<br><br><u>Amseru</u><br>Byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i ddirymu'r rheoliadau a wneir o dan adran 22(1). |
| 24 (1) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru amrywio'r amseriadau ar gyfer paratoi neu gyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ac Adroddiad Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP). | <u>Bwriad y polisi</u><br>O dan adran 7 o'r Bil, rhaid i CNC gyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), sy'n cynnwys asesiad o gyflwr yr adnoddau naturiol yng Nghymru, gan gynnwys asesiad o sut mae'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni yng Nghymru. Mae'n ofynnol i CNC gyhoeddi'r SoNaRR cyntaf bedwar mis ar ôl i adran 7 o'r Bil ddod i rym. Rhaid i ddogfennau dilynol yr SoNaRR gael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn y cynhelir etholiad y Cynulliad.<br><br>O dan adran 8, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi'r Adroddiad Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP), gan amlinellu eu polisïau ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n ofynnol i CNC gyhoeddi'r NNRP cyntaf cyn diwedd y deg |

| | | |
|---|---|---|
| | | mis sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r adran i rym. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r NNRP ar ôl pob etholiad y Cynulliad.<br><br>Mae adran 24(1) o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru amrywio'r amseriadau ar gyfer paratoi neu gyhoeddi SoNaRR ac NNRP. Ar hyn o bryd, mae'r amseriadau yn cyd-fynd â'r rhai o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft, mae'r gwaith o gynhyrchu NNRP yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu amcanion lles Gweinidogion Cymru a pharatoi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mae'r pŵer yn darparu hyblygrwydd i newid yr amseriadau yn y dyfodol, gan gynnwys os bydd amseriadau'r gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn newid.<br><br><u>Amseru</u><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwriad i wneud y rheoliadau, ond mae'r pŵer yn darparu'r hyblygrwydd i wneud hynny os bydd angen. |
| 13(1) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y camau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â materion a amlinellir mewn datganiad ardal. Rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw priodol i hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae adran 14(2) o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i helpu CNC mewn perthynas â datganiadau ardal, os bydd CNC yn gofyn iddynt wneud hynny. Mae'r cyrff cyhoeddus wedi'u rhestru yn adran 11(1).<br><br>Byddai'r canllawiau a gyhoeddir o dan adran 13(1) yn darparu mwy o wybodaeth i'r cyrff cyhoeddus hyn am sut y gallant helpu CNC i roi datganiad ardal ar waith. Byddai'r canllawiau yn helpu i sicrhau ymrwymiad rhanddeiliaid eraill ar lefel leol i roi datganiad ardal ar waith.<br><br>Gallai'r canllawiau hefyd roi sylw i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft, bydd rhai o'r cyrff cyhoeddus yn aelodau statudol o Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ac efallai y byddant yn helpu i roi datganiad ardal ar waith trwy baratoi a chyflawni cynlluniau lles lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Byddai'r canllawiau hefyd yn helpu i roi cyngor i gyrff cyhoeddus ar sut y gallant gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n gallu cyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy roi datganiad ardal ar waith, er enghraifft, trwy ei ystyried wrth ddatblygu eu cynlluniau, eu rhaglenni neu eu strategaethau.<br><br>O dan adran 12(1) o'r Bil, bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i gyfarwyddo corff cyhoeddus i gymryd camau i roi datganiad ardal ar waith. Felly, os na fydd y corff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddir o dan adran 13(1), gallai Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo i wneud hynny.<br><br><u>Amseru</u><br>Y bwriad yw y byddai'r canllawiau yn cael eu darparu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. |
| **Rhan 2 – Newid yn yr Hinsawdd** | | |
| 30(1) | Mae'r adran hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru amlinellu un neu fwy o flynyddoedd targed interim cyn 2050 a phennu uchafswm net ar gyfer allyriadau yng Nghymru ar gyfer pob un o'r blynyddoedd targed hynny fel canran islaw'r gwaelodlin. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a gosod targedau interim yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol a thechnegol ddiweddaraf ar lefel genedlaethol, Ewropeaidd a Rhyngwladol, yn ogystal â manteisio ar gyngor gan gorff cynghori penodol. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a gosod targedau interim er mwyn darparu llwybr priodol i gyflawni targed 2050 a darparu'r cyfeiriad ar gyfer cyllidebau carbon.<br><br>Mewn perthynas â'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, ar y cyfan mae'r darpariaethau yn sicrhau bod mesurau sy'n angenrheidiol at ddibenion lleihau allyriadau yn hyblyg a bod modd eu cyflwyno, os bydd angen, yn gyflym yng ngoleuni profiad a thystiolaeth heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | <u>Bwriad y polisi</u><br>Bwriad targedau interim yw llywio'r gwaith o bennu cyllidebau carbon yn y tymor canolig a llywio'r gyfradd ar gyfer lleihau cyllidebau carbon i gyflawni'r targed hirdymor erbyn 2050. Heb dargedau interim, nid oes cyfyngiad ar gyfanswm cronnus yr allyriadau i'r atmosffer ar y cyfan. Trwy osod targedau interim, bydd cyfanswm cronnus yr allyriadau a ganiateir o dan system cyllideb garbon yn cael ei osod i sicrhau bod nodau tymor byr a chanolig yn cael eu cyflawni.<br><br>Cyn defnyddio'r pwerau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y Corff Cynghori ar osod targedau fel yr amlinellir yn adran 49 o'r Bil ac ystyried y cyngor hwnnw.<br><br>Mae'r targedau interim yn cael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth i sicrhau eu bod yn cynnwys y dystiolaeth wyddonol a thechnegol ddiweddaraf a bod modd lleihau allyriadau ar y gyfradd fwyaf effeithiol i'r economi. Mae adran 32(3) yn amlinellu'r amrywiaeth o faterion sydd angen eu hystyried fel sail dystiolaeth i lywio'r penderfyniadau wrth osod y targedau, megis y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf am y newid yn yr hinsawdd a'r adroddiad tueddiadau'r dyfodol diweddaraf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Mae gosod targedau interim ymlaen llaw yn cydnabod nad yw hi'n bosibl rhagweld yn fanwl gywir hyd at 2050 yr amryfal ffactorau y bydd angen eu hystyried mewn perthynas â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae rhai technolegau neu newidiadau o ran offer yn cymryd cryn amser i'w cyflwyno ac mae angen amser i newid rhai mathau o ymddygiad.<br><br><u>Amseru:</u><br>Bydd y pŵer i osod targed interim yn cael ei ddefnyddio cyn gynted ag y |

| | | |
|---|---|---|
| | | bo hynny'n ymarferol yn seiliedig ar gyngor gan y corff cynghori a law yn llaw â'r gwaith o ddatblygu a gosod y ddwy gyllideb garbon gyntaf i sicrhau cysondeb.<br><br>Bydd unrhyw ddefnydd pellach o'r pŵer i osod unrhyw dargedau interim pellach ond yn cael ei ddefnyddio os bydd tystiolaeth wyddonol a thechnegol, cyngor gan y corff cynghori neu adolygiadau o gynnydd tuag at y targed 2050 yn nodi bod angen gosod targed interim arall. |
| 31(1) | Mae'r adran hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon, sy'n pennu uchafswm ar gyfer yr allyriadau ym mhob cyfnod cyllidebol. Y cyfnodau cyllidebol yw 2016-2020 a phob cyfnod o bum mlynedd ar ôl hynny. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae adran 31 (1) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon, sy'n pennu uchafswm allyriadau ac yn arwain y gyfradd lleihau allyriadau. Y cyfnodau cyllidebol yw 2016-2020 a phob cyfnod o bum mlynedd ar ôl hynny hyd at 2050.<br><br>Rhaid i Weinidogion Cymru osod y cyllidebau hyn ymlaen llaw gyda'r ddau gyfnod cyllidebol cyntaf (erbyn diwedd 2018), a bydd angen i bob cyllideb ddilynol gael ei gosod bum mlynedd cyn y gyllideb dan sylw.<br><br>Cyn defnyddio'r pwerau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan y Corff Cynghori ar osod targedau fel yr amlinellir yn adran 49 o'r Bil ac ystyried y cyngor hwnnw.<br><br>Mae'r cyllidebau yn cael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth i sicrhau eu bod yn cynnwys y dystiolaeth ddiweddaraf a bod modd lleihau allyriadau ar y gyfradd fwyaf effeithiol i'r economi. Mae adran 32(3) yn amlinellu'r amrywiaeth o faterion sydd angen eu hystyried fel sail dystiolaeth i lywio'r penderfyniadau wrth osod cyllidebau, megis y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf am y newid yn yr hinsawdd a'r adroddiad tueddiadau'r dyfodol diweddaraf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gosod cyllidebau carbon ymlaen llaw yn cydnabod nad yw hi'n bosibl rhagweld yn fanwl gywir hyd at 2050 yr amryfal amgylchiadau a ffactorau a all godi ac effeithio ar y gallu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru (ac felly y mae angen eu hystyried). Mae rhai technolegau neu newidiadau o ran offer yn cymryd cryn amser i'w cyflwyno ac mae angen amser i newid rhai mathau o ymddygiad.<br><br><u>Amseru</u><br><br>Y cyfnodau cyllidebol yw 2016-2020 a phob cyfnod dilynol o bum mlynedd hyd at 2050. Mae adran 31(4) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ddwy gyllideb gyntaf gael eu gosod erbyn 2018 ac i bob cyllideb ddilynol gael eu gosod o leiaf 5 mlynedd cyn dechrau'r cyfnod cyllidebol dan sylw.<br><br>Bydd y gwaith o osod y cyllidebau carbon a'r fframwaith lleihau allyriadau ehangach yn cael ei ddatblygu dros amser gan ystyried y sail dystiolaeth ddiweddaraf a chyngor gan y Corff Cynghori. |
| 33(2) | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i nodi mewn rheoliadau pa unedau carbon y mae modd eu credydu a'u debydu o gyfrif allyriadau net Cymru a sut y mae modd gwneud hyn. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Bwriad y rheoliadau o dan adran 33 (2) yw diffinio sut y mae modd credydu a debydu cyfrif allyriadau net Cymru o ganlyniad i gynlluniau masnachu carbon. Bydd y rheoliadau yn diffinio pa unedau fydd yn cyfrif tuag at gyfrif allyriadau net Cymru a sut y bydd modd gwneud hynny. Bwriad y polisi yw diffinio sut y bydd credydau carbon sy'n bodoli o fewn y sectorau a gaiff eu masnachu (EU-ETS) a'r rhai na chânt eu masnachu yn cael eu cynnwys yng nghyfrif allyriadau net Cymru. Trwy ddiffinio'r darpariaethau hyn mewn rheoliadau, bydd modd cadw'r hyblygrwydd i ystyried arferion Ewropeaidd a rhyngwladol yn y dyfodol mewn perthynas ag unedau carbon. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd cwmnïau yng Nghymru yn cymryd rhan mewn cynlluniau masnachu eraill o'r fath. Os ydym yn awyddus i gyfrif allyriadau net Cymru gynnwys yr unedau a gaiff eu masnachu o fewn cynlluniau o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | fath, bydd angen diffinio o dan ba delerau y bydd hynny'n digwydd.<br><br><u>Amseru:</u><br>Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen er mwyn cadw'r hyblygrwydd i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau mewn perthynas ag arferion Ewropeaidd a rhyngwladol, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau masnachu newydd a gyflwynir yn y dyfodol. |
| 33(3) a 33(4) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfyngu ar gyfanswm net yr unedau carbon a all leihau allyriadau net Cymru am gyfnod ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi unedau carbon nad ydynt yn cyfrif tuag at y cyfyngiad yn Adran 33(3). | <u>Bwriad y polisi</u><br>Bwriad y pŵer hwn yw cyfyngu ar i ba raddau y gellir defnyddio credydau carbon i wrthbwyso cyfrif allyriadau net Cymru, ac mae'n darparu ffordd o sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i leihau allyriadau yng Nghymru.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i rai mathau o unedau carbon fod yn anghyfyngedig yn eu defnydd tuag at darged allyriadau Cymru. Bydd y pŵer yn caniatáu i rai unedau carbon gael eu masnachu'n rhydd yng Nghymru ac yn sicrhau nad yw adran 33(3) yn cyfyngu ar weithrediad cynlluniau carbon yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y bydd y pŵer hwn yn nodi y gall masnachu o dan gynllun penodol weithredu yn rhydd o unrhyw gyfyngiad a gyflwynir gan unrhyw reoliadau o dan adran 33(3).<br><br><u>Amseru:</u><br>Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen er mwyn cadw'r hyblygrwydd i fynd i'r afael ag unrhyw dystiolaeth wyddonol neu dechnegol, arferion Ewropeaidd neu ryngwladol neu gyngor gan y corff cynghori. |
| 35 (1) | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, trwy reoliadau, i sicrhau bod cyfran o allyriadau hedfan rhyngwladol ac | <u>Bwriad y polisi</u><br>Gan nad yw allyriadau hedfan rhyngwladol ac allyriadau morgludiant rhyngwladol yn perthyn i wlad benodol, efallai y bydd angen nodi faint o'r allyriadau hyn fydd yn cael eu dyrannu i gyfrif allyriadau Cymru. Efallai y |

| | | |
|---|---|---|
| | allyriadau morgludiant rhyngwladol yn cael ei phriodoli i Gymru. | bydd hefyd angen i'r dyraniad hwn newid dros amser, yn enwedig os bydd cytundeb Ewropeaidd neu ryngwladol yn golygu y bydd angen gwneud newid o'r fath yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid oes yna gytundeb rhyngwladol ar sut i ddyrannu'r allyriadau hyn i wladwriaethau. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd yn y dyfodol i gynnwys allyriadau hedfan rhyngwladol ac allyriadau morgludiant rhyngwladol yng nghyfrif allyriadau net Cymru. Mae darparu ar gyfer hyn trwy reoliad yn caniatáu i Gyfrif Allyriadau Net Cymru gael ei diweddaru i adlewyrchu canllawiau adrodd rhyngwladol wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar y dull o fynd i'r afael ag allyriadau hedfan rhyngwladol ac allyriadau morgludiant rhyngwladol.<br><br><u>Amseru:</u><br>Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen yn y lle cyntaf ar ôl derbyn cyngor gan y corff cynghori ac yn y dyfodol mewn ymateb i unrhyw gytundeb Ewropeaidd neu ryngwladol sy'n gwneud newid o'r fath yn angenrheidiol. Ar hyn o bryd, nid oes cytundeb rhyngwladol ar sut i ddyrannu'r allyriadau hyn i wladwriaethau. |
| 36(1) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiffinio ystyr Unedau Carbon yn nhermau lleihau, dileu a gosod cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd yn y dyfodol i ddiffinio "unedau carbon" yn unol ag arferion ehangach.<br><br><u>Amseru:</u><br>Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol, ar ôl cael cyngor gan y corff cynghori. |
| 36(2) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun, neu ddefnyddio cynllun presennol, i gofrestru ac olrhain unedau carbon ac i sefydlu a chynnal cyfrifon fel y gellir cadw unedau carbon a | <u>Bwriad y polisi</u><br>Byddai rheoliadau a wneir o dan adran 36(2) yn sefydlu cynllun ar gyfer cofrestru a chyfrifo'r unedau carbon sy'n cael eu prynu neu eu gwerthu neu eu trosglwyddo yng Nghymru. Efallai y bydd cynllun o'r fath yn angenrheidiol i weinyddu'r gwaith o fasnachu unedau carbon yng Nghymru. Caniateir i'r rheoliadau (o dan adran 36(3)) ganiatáu i |

| | | |
|---|---|---|
| | throsglwyddo’r unedau o’r naill i’r llall. | Weinidogion Cymru ddiwygio cynllun presennol i ganiatáu gweinyddiaeth o’r fath. Yn ogystal, o dan adran 36(4), caniateir i’r rheoliadau ddarparu ar gyfer ystod o swyddogaethau, gan gynnwys penodi gweinyddwr, rhoi swyddogaethau i weinyddwr penodedig, rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a chaniatáu i Weinidogion Cymru ddirprwyo swyddogaethau a roddir iddynt neu a orfodir arnynt trwy reoliadau.<br><br>Amseru<br>Y bwriad yw ond defnyddio’r pŵer hwn os yw’n angenrheidiol i fonitro’r defnydd o unedau carbon ac, ar hyn o bryd, ni wyddom a fydd cynllun o’r fath yn angenrheidiol. Fodd bynnag, os daw’n angenrheidiol, mae’r darpariaethau hyn yn caniatáu creu cynllun o’r fath. |
| 37(2) | Mae’n rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, ychwanegu neu addasu’r rhestr o nwyon tŷ gwydr a dargedir gan y Ddeddf yn adran 37(1) | Bwriad y polisi<br>Mae’r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol fel y bo modd ymateb i’r wyddoniaeth ddiweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig o gofio ei bod yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. Gan fod gwyddoniaeth y newid yn yr hinsawdd yn esblygu’n barhaus, mae’n bosibl, yn y dyfodol, y bydd angen diwygio, addasu neu ychwanegu nwyon newydd i’r rhestr o nwyon y mae targedau ar eu cyfer yn y Bil, a hynny yn unol â gofynion adrodd rhyngwladol, neu uchelgais Gweinidogion Cymru. Er enghraifft, mae hydrofflworocarbonau a pherfflworocarbonau yn deuluoedd o nwyon; derbynnir yn arfer o gyfeirio atynt ar y cyd ond efallai y bydd hi’n briodol yn y dyfodol i ddisgrifio nwyon unigol o fewn y teuluoedd hynny. Byddai’r rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i’r mathau hyn o newidiadau.<br><br>Amseru<br>Bydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio mewn ymateb i’r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf sy’n nodi bod angen i nwy tŷ gwydr newydd gael ei ychwanegu at y rhestr. Mae’r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb i’r wyddoniaeth ddiweddaraf yn y maes hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er enghraifft, yn 2013 ychwanegodd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd nwy newydd at y protocol nwyon tŷ gwydr (nitrogen trifflworid), gan gynyddu'r rhestr o chwe nwy tŷ gwydr targed i saith. Mae amseru'r Bil yn caniatáu i ni ychwanegu'r nwy hwn at y rhestr o nwyon tŷ gwydr yn y Bil. |
| 38(3) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, ychwanegu neu addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr a amlinellir yn adran 38(2). | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol fel y bo modd ymateb i'r wyddoniaeth ddiweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig o gofio ei bod yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. Os ychwanegir nwy tŷ gwydr newydd o dan adran 37(2), bydd angen dynodi blwyddyn waelodlin, ochr yn ochr â swm yr allyriadau ar gyfer y flwyddyn honno, er mwyn iddo gael ei ychwanegu at y cyfrif allyriadau net at ddibenion targedau a chyllidebau o fewn y Bil. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r flwyddyn waelodlin gael ei haddasu. Mae hyn yn galluogi'r Bil i gynnwys y canllawiau adrodd diweddaraf, neu uchelgais Gweinidogion Cymru, os bydd tystiolaeth yn dangos y dylid mabwysiadu blynyddoedd gwaelodlin eraill ar gyfer nwyon presennol a restrir o dan 38(2).<br><br><u>Amseru</u><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd i fynd i'r afael ag unrhyw dystiolaeth wyddonol newydd neu unrhyw newidiadau i arferion Ewropeaidd a rhyngwladol sy'n nodi bod angen gwneud newid. Bydd unrhyw newid o'r fath yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor diweddaraf gan y corff cynghori.<br><br>Mewn perthynas ag ychwanegu nwy tŷ gwydr at y rhestr, bydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio mewn ymateb i'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i nwy tŷ gwydr newydd gael ei ychwanegu at y rhestr, ac felly i flwyddyn waelodlin gael ei sefydlu. Mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb i'r wyddoniaeth ddiweddaraf yn y maes hwn. |
| 44(1) | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru enwi person fel y corff cynghori | Bwriad y polisi<br>Mae adran 44(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i enwi, trwy reoliadau, person (a elwir y corff cynghori) i gyflawni'r swyddogaethau cynghori a amlinellir yn y Bil. Yn absenoldeb rheoliadau a wneir o dan adran 44(1), Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, a sefydlwyd gan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, fydd y Corff Cynghori.<br><br>Mae'r Bil yn nodi beth yw'r swyddogaethau cynghori mewn perthynas â phennu targedau interim, cyllidebau a darpariaethau eraill ac yn egluro y gall y rhain gynnwys swyddogaethau cynghori pellach.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol o ran pa gorff neu berson a fydd yn cyflawni swyddogaethau cynghori o dan y Bil hwn, yn enwedig o gofio ei bod yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. Os bydd Gweinidogion Cymru yn nodi arbenigwr cymwys ar y newid yn yr hinsawdd sy'n gallu arbenigo/canolbwyntio ar allyriadau Cymru, efallai yr hoffent enwi unigolyn o'r fath fel y corff cynghori at ddiben Rhan 2 o'r Bil.<br><br>Amseru<br>Bydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio os bydd modd enwi corff neu unigolyn addas fel y corff cynghori. Ni fwriadwyd i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio'n syth. Yn absenoldeb rheoliadau sy'n enwi unigolyn, bydd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei enwi fel y Corff Cynghori. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol o ran pa gorff neu berson a fydd yn cyflawni swyddogaethau cynghori o dan y Bil hwn, yn enwedig o gofio ei bod yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. |

| | | |
|---|---|---|
| 47 | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r Corff Cynghori. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae gan y Corff Cynghori rôl allweddol o ran darparu cyngor ar amryw o ddarpariaethau yn y Bil. Mae'r wyddoniaeth, y dechnoleg a pholisïau mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n gyson yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf.<br><br>Mae adran 47 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r Corff Cynghori. Mewn rhai meysydd cyngor neu ddadansoddi, efallai y bydd hi'n briodol rhoi canllawiau i'r Corff Cynghori i sicrhau ei fod yn ystyried polisïau neu arferion rhyngwladol neu benodol i Gymru, megis pennu safonau neu ddulliau.<br><br><u>Amseru</u><br>Nid darparu canllawiau yn syth yw'r bwriad, ond bydd y pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru sicrhau bod y corff cynghori yn darparu'r dystiolaeth a'r cyngor mwyaf effeithiol ar leihau allyriadau yng Nghymru.<br><br>Mae'r wyddoniaeth, y dechnoleg a pholisïau mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n gyson yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol o ran cael y dystiolaeth ddiweddaraf i lywio ein penderfyniadau ac i ddefnyddio'r ddarpariaeth yn ddiweddarach os bydd hynny'n briodol. |
| 52 | Mae'r adran hon yn diffinio'r arfer rhyngwladol o adrodd ar garbon o ran y protocolau i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, neu drefniadau neu gytundebau Ewropeaidd neu ryngwladol eraill y | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd yn y dyfodol i ystyried cytundebau a threfniadau Ewropeaidd a rhyngwladol a gaiff eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas ag "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon" y dylid eu hystyried wrth weithredu o dan rai o'r darpariaethau yn y Bil (gweler adrannau 43(4) a 51(2). |

| | | |
|---|---|---|
| | mae Gweinidogion Cymru yn eu nodi trwy reoliadau. | Amseru<br>Bydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio mewn ymateb i unrhyw ddatblygiadau i arferion rhyngwladol adrodd ar garbon ac mae'n darparu'r hyblygrwydd i fynd i'r afael â'r datblygiadau hyn. Felly, bydd y pŵer ond yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu cytundebau a threfniadau Ewropeaidd a rhyngwladol yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a gaiff eu gwneud yn y dyfodol at ystyr "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon" y mae angen eu hystyried wrth weithredu o dan y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil. |
| **Rhan 3 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa** | | |
| 55(1) | Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i godi taliadau am wahanol fathau o fagiau siopa, yn ogystal â'r tâl sydd eisoes ar waith am fagiau siopa untro, a rhoi dyletswydd ar werthwyr i roi enillion net y tâl i achosion da amgylcheddol ac achosion da eraill fel y nodir yn y rheoliadau. | Bwriad y polisi<br>Mae dwy elfen i'r bwriad i ehangu cwmpas Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i ddisodli'r darpariaethau yn adran 77 ac Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 gyda system bagiau siopa ar gyfer Cymru y bydd modd ei haddasu mewn ffordd hyblyg trwy ddefnyddio rheoliadau wrth i dystiolaeth o angen ddod i'r amlwg. Mae'r darpariaethau yn Rhan 3 fwy neu lai yr un fath â'r rhai yn Atodlen 6, ac eithrio y byddant yn ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y cânt wneud rheoliadau i godi isafswm tâl am wahanol fathau o fagiau siopa fel y nodir yn y rheoliadau, yn hytrach na bagiau siopa untro yn unig. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a'r galw am wahanol fathau o fagiau, os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn nodi bod y gwaith o gyflenwi a gwaredu'r mathau hyn o fagiau siopa yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn nodi bod angen cymryd y camau hyn, byddwn yn mynd ati i ymgynghori ar yr opsiynau ar gyfer codi isafswm tâl am wahanol fathau o fagiau a chynnal asesiad effaith, gan ystyried dysgu a phrofiadau gweinyddiaethau eraill yn y maes. Yn ogystal, bydd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau presennol i gynnwys isafswm tâl am fathau eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | o fagiau siopa yn ddarostyngedig i'r broses gadarnhaol.<br><br>Yn ail, bydd adran 57 o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar werthwyr i roi enillion net y tâl am fagiau siopa i achosion da fel y nodir yn y rheoliadau. Bydd hyn yn sicrhau y bydd holl enillion net y tâl am fagiau siopa yn cael eu rhoi i achosion da a bod arferion gwerthwyr yn gyson ledled Cymru. O ganlyniad, ni fydd gwerthwyr yn gallu cadw'r enillion mwyach.<br><br>Nid yw'r Bil yn cynnwys y cyfyngiad ym mharagraff 4A o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, sef bod rhaid i'r enillion net gael eu rhoi i achosion da amgylcheddol. Gall gwerthwyr roi'r enillion net i unrhyw elusen a nodir yn y rheoliadau. Bydd y newid hwn yn sicrhau pan ddaw adran 57, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl i achosion da, i rym, na fydd yn amharu ar drefniadau presennol y gwerthwyr hynny sy'n rhoi enillion net i achosion da amgylcheddol ar hyn o bryd. Gallai rheoliadau nodi y gall gwerthwyr roi'r enillion net i unrhyw elusen neu gallai nodi'r elusennau a all elwa.<br><br><u>Amseru</u><br>Fel y nodir uchod, ni fydd y polisi yn newid y rheoliadau presennol i godi tâl am fathau eraill o fagiau siopa hyd nes y bydd tystiolaeth yn dangos bod angen cymryd y camau hynny. Rydym wrthi'n ddiwyd yn crynhoi a dadansoddi'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a bydd hyn hefyd yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar y tâl am fagiau siopa untro a fydd ar gael ym mis Mehefin eleni. Rydym hefyd yn ystyried dysgu a phrofiadau gweinyddiaethau eraill yn y maes hwn ac, ar ôl dadansoddi'r holl wybodaeth sydd ar gael, byddwn yn penderfynu a ddylid codi isafswm tâl am fathau eraill o fagiau siopa. Byddwn yn defnyddio'r pŵer i wneud Rheoliadau.<br>Bydd Rheoliadau a wneir o dan adran 57 sy'n gorfodi gwerthwyr i roi enillion net y tâl i elusennau yn dod i rym yr un pryd ag y bydd yr adran hon yn dod i rym yn unol ag adran 88(3)(a). |

| Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff | | |
|---|---|---|
| 66<br>yn mewnosod adran 45AA newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | Adran 45AA(6): pŵer Gweinidogion Cymru i nodi gofynion gwahanu mewn rheoliadau, sef camau i'w cymryd at ddiben sicrhau bod gwahanol fathau o wastraff yn cael eu gwahanu oddi wrth ei gilydd neu oddi wrth sylweddau neu wrthrychau eraill.<br><br>Adran 45AA(7): Pŵer Gweinidogion Cymru i nodi mewn rheoliadau o dan ba amgylchiadau mae gofyniad gwahanu o dan adran 45AA(6) yn berthnasol.<br><br>Adran 45AA(10)(a): Pŵer Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau i nodi eithriadau i'r dyletswyddau yn adrannau 45AA(1) a (2) (casglu ac ati gwastraff yn unol â gofynion gwahanu).<br><br>Adran 45AA(10(b): Pŵer Gweinidogion Cymru i nodi eithriadau i'r ddyletswydd yn adran 45AA(4)(cyflwyno gwastraff i'w gasglu yn unol â gofynion | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mewn perthynas â'r pwerau yn adrannau 45AA(6) a (7), mae adrannau 45AA(1) a (2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drefnu i gasglu gwastraff, a'r busnesau hynny sy'n gyfrifol am gasglu, cludo ac ati gwastraff, i gyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion gwahanu a nodir mewn rheoliadau o dan isadrannau 6) a (7).<br>Rhagwelir y bydd y pwerau o dan is-adrannau (6) a (7) yn cael eu defnyddio i:<br>nodi'r mathau o wastraff i'w casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl hynny;<br>nodi lefelau derbyniol o halogiad o fewn deunyddiau a gasglwyd ar wahân neu ofynion technegol eraill sy'n briodol i gasglu, cludo, trin ac ati gwahanol fathau o wastraff;<br>amlinellu'r amgylchiadau lle mae gofynion penodol yn berthnasol;<br>nodi pryd y bydd y gofynion yn dod i rym.<br><br>Mae deunyddiau megis papur, cerdyn, gwydr, plastig, metel, bwyd a phren ailgylchadwy wrthi'n cael eu hystyried ar gyfer casgliadau ar wahân. Bydd y gofynion technegol mewn perthynas â chasglu deunyddiau penodol, amgylchiadau arbennig ac amseru yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Rheoliadau a chanllawiau statudol.<br><br>Y bwriad yw mai Cyfoeth Naturiol Cymru fydd Rheoleiddiwr y darpariaethau hyn.<br><br>Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 45AA(10(a)) gael ei ddefnyddio i nodi eithriadau i'r dyletswyddau casglu ar wahân ac ati yn adrannau 45AA(1) a (2). Wrth i'r polisi ddatblygu, neu pan fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal mewn perthynas â gwneud rheoliadau i nodi gofynion gwahanu, rhagwelir efallai y bydd angen eithrio rhai unigolion neu gyrff penodol o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | gwahanu).<br><br>Adran 45AA(11): Pŵer Gweinidogion Cymru wrth ddefnyddio'r pwerau galluogi yn adrannau 45AA(6), (7) a (10) i wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion, gwahanol achosion (gan gynnwys gwahanol bobl, eiddo neu fathau o wastraff) a gwahanol ardaloedd. | dyletswyddau yn is-adrannau (1) a (2).<br><br>Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 45AA(10(b) gael ei ddefnyddio mewn perthynas ag adran 45AA(4) sy'n rhoi dyletswydd ar feddianwyr eiddo annomestig yng Nghymru i gyflwyno gwastraff i'w gasglu yn unol â gofynion gwahanu a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan adrannau 45AA(6) a (7). Mae adran 45AA(5) yn cynnwys eithriadau () i'r ddyletswydd yn isadran (4) ar gyfer eiddo domestig a charafanau. Yr un fath ag ar gyfer y dyletswyddau o dan is-adrannau (1) a (2), wrth i'r polisi ddatblygu, neu pan fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal mewn perthynas â gwneud rheoliadau i nodi gofynion gwahanu, rhagwelir efallai y bydd angen eithrio rhai unigolion neu gyrff penodol o'r dyletswyddau yn isadran (4). Os felly, gellir defnyddio'r pŵer yn adran 45AA(10(b)) i wneud eithriadau ychwanegol i'r rhai sydd eisoes wedi'u hamlinellu yn is-adran (5).<br><br>Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 45AA(11) gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith o ymarfer unrhyw un o'r pwerau galluogi yn is-adrannau (6), (7) a (10). Fel y mae'r disgrifiad o'r pŵer yn awgrymu, y bwriad yw y bydd yn rhoi digon o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymarfer y pwerau galluogi eraill, addasu effeithiau rheoliadau a wneir o dan y pwerau hynny ac ystyried amgylchiadau unigol, amodau lleol a gofynion mewn perthynas â chymesuredd wrth wneud rheoliadau.<br><br>Mae'r adran 45AB newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynhyrchu codau ymarfer i roi canllawiau ymarferol ar y gofynion gwahanu. Byddai hyn yn cwmpasu manylion ychwanegol i helpu'r rhai sy'n cael eu gorfodi gan y rheoliadau a'r Rheoleiddiwr. Mae materion y gallai'r codau eu cwmpasu yn cynnwys dulliau casglu ar wahân sy'n cael eu ffafrio ac uchafswm yr halogiad mewn deunydd eildro. Byddai modd cyflwyno codau ymarfer o'r fath mewn achosion llys. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Y bwriad yw mai Cyfoeth Naturiol Cymru fydd Rheoleiddiwr y darpariaethau hyn.<br><br><u>Amseru</u><br>Ni fydd Gweinidogion Cymru yn ymarfer unrhyw un o'r pwerau i wneud rheoliadau yn adran 45AA cyn mis Ionawr 2017. |
| 67<br>yn mewnosod adran 34D newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | Adran 34D(6)(a): Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau i'r ddyletswydd yn adran 34D(1) (gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos) yn berthnasol o dan rai amgylchiadau yn unig.<br><br>Adran 34D(6)(b): Pŵer Gweinidogion Cymru i nodi mewn rheoliadau eithriadau i'r ddyletswydd yn adran 34D(1), yn ogystal â'r rhai yn adran 34D(2).<br><br>Adran 34D(6)(c): Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o wastraff bwyd yn adran 34D(5). | Mae adran 34D(1) yn gwahardd meddianwyr eiddo annomestig yng Nghymru rhag gwaredu gwastraff bwyd i garthffos. Mae'r gwaharddiad, sy'n ddarostyngedig i eithriadau statudol yn is-adran (2), yn berthnasol i bob meddiannydd o'r fath o dan yr holl amgylchiadau. Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 34D(6)(a) gael ei ddefnyddio i nodi o dan ba amgylchiadau y bydd y gwaharddiad yn berthnasol. Yn y dyfodol, efallai y bydd amgylchiadau o'r fath yn cael eu nodi o ganlyniad i ddatblygiad polisi neu ymgynghoriad. Byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio i nodi o dan ba amgylchiadau y byddai'r pŵer yn berthnasol neu i wneud cais i ystyried amgylchiadau penodol, yn amodol ar amrywiadau.<br><br>Mae is-adran (2) yn eithrio eiddo domestig a charafanau o'r ddyletswydd yn adran 34D(1). Wrth i'r polisi ddatblygu, neu o ganlyniad i ymgynghoriad yn y dyfodol, efallai y nodir eithriadau angenrheidiol pellach. Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 34D(6)(b) gael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau o'r fath i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud eithriadau angenrheidiol.<br><br>Mae gwastraff bwyd wedi'i ddiffinio yn adran 34D(5). Wrth i dechnoleg prosesu ac adfer bwyd newid, neu o ganlyniad i ymgynghoriad neu newid polisi yn y dyfodol, efallai y bydd angen newid y diffiniad o "wastraff bwyd" y mae'r gwaharddiad yn is-adran (1) yn berthnasol iddo. Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 34D(6)(c) alluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r ddarpariaeth ar gyfer newidiadau o'r fath. |

| | | |
|---|---|---|
| | Adran 34D(7): Pŵer Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau o dan is-adran (6)(a) neu (b) i wneud gwahanol ddarpariaeth ar gyfer gwahanol ddibenion, gwahanol achosion (gan gynnwys gwahanol bobl, eiddo neu fathau o wastraff bwyd) a gwahanol ardaloedd. | Y bwriad yw i'r pŵer yn adran 34D(7) gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith o ymarfer unrhyw un o'r pwerau galluogi yn is-adrannau (6)(a) a (b). Y bwriad yw y bydd yn rhoi digon o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymarfer y pwerau galluogi eraill, addasu effeithiau rheoliadau a wneir o dan y pwerau hynny ac ystyried amgylchiadau unigol, amodau lleol a gofynion mewn perthynas â chymesuredd.<br><br><u>Amseru</u><br>Ni fydd y gwaharddiad yn adran 34D(1) na rheoliadau cysylltiedig a wneir o dan yr adran hon yn dod i rym cyn mis Ionawr 2017. Mae'n debygol y bydd angen gwneud rheoliadau i gefnogi gweithrediad y gwaharddiad ar ôl y dyddiad hwn, er mai yn ddiweddarach y byddwn yn penderfynu ar union gynnwys y rheoliadau hyn, ar ôl mwy o ddatblygiadau polisi ac ymgynghori ar y rheoliadau eu hunain. |
| 68<br>yn mewnosod adran 9A newydd i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 | Adran 9A(1) a (2): Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i wahardd neu reoleiddio llosgi mathau penodedig o wastraff | <u>Bwriad y polisi</u><br>Bwriad y polisi yw gwahardd deunyddiau ailgylchadwy rhag cael eu llosgi mewn ffatrïoedd llosgi yng Nghymru.<br><br>Gall y rheoliadau wneud y canlynol:<br><br>Nodi deunyddiau i'w gwahardd o ffatrïoedd llosgi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwaharddiadau ar ddeunyddiau ailgylchadwy megis papur a phlastigau dihalog.<br>Diwygio Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, sy'n gysylltiedig â llosgi gwastraff, er enghraifft, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Ar hyn o bryd, y bwriad yw mai dyma fydd y defnydd cyntaf o'r pwerau galluogi. Bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio er mwyn diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol presennol i wahardd, trwy'r drefn |

| | | |
|---|---|---|
| | | drwyddedu, llosgi deunyddiau penodedig. Dros amser, gellir gwneud rheoliadau annibynnol i Gymru yn unig mewn perthynas â gwahardd llosgi deunyddiau penodedig. Byddai'r rhain yn:<br><br>➢ Darparu ar gyfer troseddau am fethu â chydymffurfio â'r gwaharddiad.<br>➢ Darparu ar gyfer cosbau am fethu â chydymffurfio â'r gwaharddiad, gan gynnwys cosbau troseddol a sancsiynau sifil<br>➢ Darparu ar gyfer Apelau yn erbyn sancsiynau sifil.<br>➢ Darparu ar gyfer rheoleiddwyr a'u swyddogaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r ddarpariaeth hon gael ei rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae CNC yn trwyddedu ac archwilio cyfleusterau presennol yng Nghymru a rhagwelir y byddai'r gwaharddiad yn cael ei reoleiddio trwy'r system hon.<br><br><u>Amseru</u><br>Ni fydd yr adran 9A newydd na rheoliadau a wneir o dan y pwerau ynddi yn dod i rym cyn mis Ionawr 2017. |
| **Rhan 5 – Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn** | | |
| 72 | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud hi'n ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais am Orchymyn o dan adran 1 (trwy'r is-adrannau 2A a 2B newydd) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ddarparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol i ystyried cais | <u>Bwriad y polisi</u><br>Bydd is-adrannau 1(2A) ac 1(2B) o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i:<br><br>Nodi sut y dylid gwneud cais am Orchymyn Pysgodfa Gregyn, heb yr angen i wneud is-ddeddfwriaeth at y diben hwnnw. Ar hyn o bryd, mae'r ffurflen gais y dylid ei defnyddio wedi'i hamlinellu yn y Several and Regulating Fisheries (Form of Application) Regulations 1987 (O.S. 1987/217). Fodd bynnag, bydd y wybodaeth sydd angen ei darparu mewn perthynas â phob pysgodfa arfaethedig o'r fath yn cael ei |

| | | |
|---|---|---|
| | o'r fath. | phennu fesul achos ac, o ganlyniad, mae gofyniad i nodi bod gwybodaeth mewn Offeryn Statudol yn gwbl anhyblyg.<br>Gofyn i unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais am Orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf 1967 ddarparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol (a allai gynnwys gwybodaeth amgylcheddol) i ystyried cais o'r fath. Bydd y wybodaeth a fydd yn ofynnol mewn perthynas â cheisiadau o'r fath yn cael ei hystyried a'i phennu fesul achos.<br><br><u>Amseru</u><br>Gwneir Gorchmynion ar sail ad-hoc pan fydd ceisiadau'n dod i law. |
| 73 | Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod Gorchymyn a wneir o dan adran 1 (trwy'r is-adran 5A newydd) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau yr ystyrir eu bod yn briodol i atal niwed i unrhyw EMS neu i ddiogelu'r amgylchedd morol | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae adran 73 yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu a ddylid caniatáu Gorchymyn o'r fath, yn ystyried y posibilrwydd y bydd Safle Morol Ewropeaidd (EMS) neu'r amgylchedd morol yn cael ei niweidio o ganlyniad i'r Gorchymyn ac yn cyflwyno amodau i osgoi niwed o'r fath.<br><br><u>Amseru</u><br>Gwneir Gorchmynion ar sail ad-hoc pan fydd ceisiadau'n dod i law. |
| 74 | Mae'n darparu i Weinidogion Cymru bŵer newydd (trwy'r adran 5(B) newydd yn Neddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967) i gyflwyno Hysbysiad Gwarchod Safle i Grantî Pysgodfa Gregyn, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddo gymryd camau neu weithredu ei bysgodfa yn y modd a nodir yn yr Hysbysiad. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae adran 5 o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu pysgodfa unigol neu reoleiddio os yw pethau penodol yn digwydd (er enghraifft, os nad yw'r Grantî yn trin y bysgodfa berthnasol yn iawn).<br><br>Y prif senario lle byddai'r Hysbysiad Gwarchod Safle newydd yn cael ei ddefnyddio yw lle mae Gorchymyn pysgodfa unigol neu reoleiddio wedi'i ganiatáu a'i fod yn dod i'r amlwg yn ddiweddarach bod y ffordd y gweithredir y bysgodfa honno fel arfer yn niweidio neu'n bygwth niweidio'r EMS. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r pŵer Hysbysiad Gwarchod Safle newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru o ran rheoli sut y gweithredir pysgodfeydd cregyn o'r fath er mwyn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru weithredu'n gyflym os oes pysgodfa o'r fath yn cael ei gweithredu'n iawn ond lle gallai difrod i EMS arwain at yr un sefyllfa neu fod hynny erioed wedi digwydd.<br><br>Bydd y pŵer newydd hwn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.<br><br><u>Amseru</u><br>Cyhoeddir Hysbysiadau ar sail ad-hoc yn ôl yr amgylchiadau. |
| 75 | Mae'n darparu i Weinidogion Cymru bŵer newydd (trwy'r adran 5E newydd yn Neddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967) i'w galluogi, o dan rai amgylchiadau (lle mae Hysbysiad Gwarchod Safle wedi'i gyflwyno), i newid neu ddiddymu Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 er mwyn gwarchod safle morol Ewropeaidd. | <u>Bwriad y polisi</u><br>Gall y pŵer hwn ond cael ei ddefnyddio i newid neu ddiddymu Gorchymyn Pysgodfeydd Cregyn (a wneir o dan adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967) er mwyn sicrhau bod telerau'r Gorchymyn hwnnw yn adlewyrchu telerau'r Hysbysiad Gwarchod Safle a gyhoeddir o dan adran 74 o'r Bil.<br><br><u>Amseru</u><br>Ar sail ad-hoc yn ôl yr amgylchiadau. |
| **Rhan 6 – Trwyddedu Morol** | | |
| 78 | Os mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol, mae'n galluogi'r awdurdod trwyddedu priodol i godi ffioedd am | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu mewnosod i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA). |

| | | |
|---|---|---|
| | fonitro gweithgarwch a awdurdodir gan drwydded forol, asesu a dehongli canlyniadau unrhyw waith monitro gweithgarwch a awdurdodir gan drwydded, yn ogystal â ffioedd ar gyfer ymdrin â chais gan ddeiliad y drwydded i newid, gwahardd, diddymu neu drosglwyddo trwyddedau morol. | Mae’r swyddogaethau ar gyfer yr awdurdod trwyddedu priodol wedi’u dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), sy’n gweinyddu’r system trwyddedu morol yng Nghymru.<br><br>Bydd Rhan 6 yn atodi pwerau codi tâl presennol yn adran 67 o’r MCAA er mwyn galluogi CNC i godi ffioedd am yr ystod ehangach o swyddogaethau y maent yn eu cyflawni fel yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i godi ffioedd mewn perthynas â monitro’r gweithgareddau a awdurdodir gan drwydded forol a newidiadau, trosglwyddiadau, gwaharddiadau a diddymiadau y mae deiliad y drwydded wedi gofyn amdanynt.<br><br>Bydd y ffioedd hyn yn cael eu pennu neu’n cael eu gweithredu yn unol â’r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd eu gwaith fel yr awdurdod trwyddedu. Bydd ffioedd a thaliadau yn seiliedig ar yr egwyddor o adennill costau llawn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae’r ffioedd ar gyfer cais am drwydded forol (yn hytrach na ffioedd ar gyfer monitro, newid, trosglwyddo ac ati) yn cael eu pennu yn ôl y math o weithgareddau, ac fe’u hamlinellir mewn bandiau fel arfer. Mae ffioedd yn amrywio o £127 ar gyfer gweithgareddau adeiladu ar raddfa fach i £38,650 ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.<br><br>Mae yna rai ffioedd monitro ar waith ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau sy’n ddarostyngedig i Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA), yn amrywio o £535 - £32,625 y flwyddyn, yn dibynnu ar faint y prosiect a’r math o brosiect. Bydd Adolygiad o Ffioedd, gydag ymgynghoriad cyhoeddus i ddilyn, yn sefydlu ffioedd ar gyfer pob math o weithgareddau y gellir eu trwyddedu i adennill costau’r broses trwyddedu morol. Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad, mae yna amryw o fodelau y gellir eu mabwysiadu i bennu ffioedd trwyddedu morol, er enghraifft, ffioedd band sefydlog neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfraddau yr awr.<br><br>Os na delir ffi am newid, gwahardd, diddymu neu drosglwyddo trwydded, gall yr awdurdod trwyddedu wrthod parhau â'r cais yn gyfan gwbl neu hyd nes y bydd y mater yn cael ei ddatrys.<br><br>Mae'r adran hon hefyd yn galluogi'r awdurdod trwyddedu, os yw'n cynnal unrhyw ymchwiliad, archwiliad neu brawf sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu ar gais gan ddeiliad trwydded i newid, gwahardd, diddymu neu drosglwyddo trwydded o dan adran 72, i'w gwneud hi'n ofynnol i ddeiliad y drwydded dalu ffi tuag at dreuliau rhesymol yr ymchwiliad, yr archwiliad neu'r prawf hwnnw (gweler is-adran (6) o adran 72A arfaethedig o'r MCAA). O ystyried natur ad hoc a phenodol y ffioedd hyn, ni fyddant yn cael eu gosod o fewn is-ddeddfwriaeth.<br><br>Os yw hi'n ofynnol i ffioedd o dan ddarpariaethau'r Bil hwn gael eu hamlinellu mewn Rheoliadau, rhagwelir y bydd Rheoliadau 2011 yn cael eu diweddaru, gan Weinidogion Cymru, gan ddefnyddio pwerau deddfu presennol ochr yn ochr â'r pwerau deddfu newydd yn y Bil er mwyn cynhyrchu un offeryn statudol a fydd yn amlinellu'r holl ffioedd trwyddedu morol. Bydd ffioedd yn cael eu pennu yn dilyn adolygiad o ffioedd ac ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br><u>Amseru</u><br>Y bwriad yw cyflwyno system newydd ar gyfer pennu ffioedd a thaliadau trwyddedu morol erbyn diwedd 2016. Felly, bydd angen i'r holl is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ddod i rym ar yr adeg honno. |
| 79 | Mae'r adran hon yn galluogi'r awdurdod trwyddedu i godi blaendal mewn perthynas â ffi, | <u>Bwriad y polisi</u><br>Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu mewnosod i'r MCAA. |

| | | |
|---|---|---|
| | gofyn am daliad ymlaen llaw a’r pŵer i ildio neu leihau ffi. | Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth sy’n galluogi’r awdurdod trwyddedu i godi blaendal mewn perthynas â ffi, gofyn am daliad ymlaen llaw a’r pŵer i ildio neu leihau ffi.<br><br>Mae’r adran hon yn ei gwneud hi’n ofynnol i gyfansymiau blaendal gael eu pennu neu eu gweithredu yn unol â rheoliadau a wneir gan yr awdurdod trwyddedu (nid yw’r swyddogaethau hyn wedi’u dirprwyo i CNC). Caiff y Rheoliadau hefyd amlinellu sut a phryd y bydd ffi neu flaendal yn cael ei dalu.<br><br>Mae ffioedd trwyddedu morol presennol wedi’u hamlinellu yn Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011. Rhagwelir y bydd Rheoliadau 2011 yn cael eu diweddaru, gan Weinidogion Cymru, gan ddefnyddio pwerau deddfu presennol ochr yn ochr â’r pwerau deddfu newydd yn y Bil er mwyn cynhyrchu un offeryn statudol a fydd yn amlinellu’r holl ffioedd trwyddedu morol. Bydd ffioedd a blaendaliadau yn cael eu pennu yn dilyn adolygiad o ffioedd ac ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Os na fydd blaendal yn cael ei dalu pan fydd ei angen mewn perthynas â monitro trwydded bresennol, gall yr awdurdod trwyddedu newid, gwahardd neu ddiddymu trwydded.<br><br>Os na fydd blaendal yn cael ei dalu pan fydd ei angen mewn perthynas â chais i newid, gwahardd, diddymu neu drosglwyddo trwydded, gall yr awdurdod trwyddedu wrthod parhau â’r cais yn gyfan gwbl neu hyd nes y bydd y mater yn cael ei ddatrys.<br><br>Ar wahân i unrhyw gamau a gymerir fel yr amlinellir uchod mewn ymateb i daliad heb ei wneud, gall yr awdurdod trwyddedu adennill ffi neu flaendal fel dyled sifil. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Amseru<br>Y bwriad yw cyflwyno system newydd ar gyfer pennu ffioedd a thaliadau trwyddedu morol erbyn diwedd 2016. Felly, bydd angen i'r holl is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ddod i rym ar yr adeg honno. |
| 80 | Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth i'w gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru, trwy Reoliadau, ddarparu mecanwaith apelio yn erbyn hysbysiad i newid, gwahardd neu ddiddymu trwydded forol o ganlyniad i fethu â thalu ffi neu flaendal mewn perthynas â monitro gweithgarwch a awdurdodir gan drwydded forol neu asesu a dehongli canlyniadau monitro gweithgarwch a awdurdodir gan drwydded forol. | Bwriad y polisi<br><br>Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu mewnosod i'r MCAA.<br><br>Mae'r ddarpariaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer mecanwaith apelio yn erbyn hysbysiadau i newid, gwahardd neu ddiddymu trwydded, o ganlyniad i fethu â thalu ffioedd neu flaendal mewn perthynas â monitro gweithgarwch a awdurdodir gan drwydded forol neu asesu a dehongli canlyniadau monitro gweithgarwch a awdurdodir gan drwydded forol. Ar hyn o bryd, mae'r weithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau a gyhoeddir o dan adrannau 72, 90, 91, 102 a 104 o'r MCAA wedi'i hamlinellu yn Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011. Gwneir apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn unol â'r Rheoliadau hynny. Rhagwelir y bydd yr un dull yn cael ei fabwysiadu ar gyfer hysbysiadau yn ymwneud â methu â thalu ffioedd monitro. Bydd y Rheoliadau presennol yn cael eu diwygio er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol.<br><br>Amseru:<br>Y bwriad yw cyflwyno system newydd ar gyfer pennu ffioedd a thaliadau trwyddedu morol erbyn diwedd 2016. Felly, bydd angen i'r holl is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ddod i rym ar yr adeg honno. |
| **Rhan 7 – Amrywiol a Chyffredinol** | | |
| 82 | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ar | Bwriad y polisi |

| | | |
|---|---|---|
| | aelodaeth a thaliadau yn ymwneud â'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd. | Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu mewnosod i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bwriad y polisi yw sefydlu pwyllgor i ddarparu cyngor ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i Weinidogion Cymru, sef y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Bydd y cyngor a ddarperir gan y pwyllgor hwn yn seiliedig ar wybodaeth gan wahanol awdurdodau rheoli risg yng Nghymru, ac yn rhoi sylw i bob ffynhonnell llifogydd. Bydd y pwyllgor presennol, Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, yn cael ei ddiddymu.<br><br>Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn ymwneud ag aelodaeth y pwyllgor (gan gynnwys nifer yr aelodau, yr amodau i fod yn gymwys i gael eich penodi a'r dull dethol a phenodi). Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â thrafodion y pwyllgor (gan gynnwys cworwm a natur a maint y mwyafrif sydd ei angen at ddibenion penodedig) a thalu cadeirydd y pwyllgor a thalu lwfansau i aelodau'r pwyllgor.<br><br><u>Amseru</u><br>Bydd angen gwneud Rheoliadau yn syth fel bod y pwyllgor newydd yn cael ei greu cyn gynted â phosibl a bod y pwyllgor presennol yn cael ei ddiddymu. |